**PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** **6ed MEHEFIN 2018**

# RHAGLEN

**DATGAN BUDDIANNAU**

**Atgoffir yr Aelodau'n barchus bod angen iddynt ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

**2. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU MAI 2018**

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

**3. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

**4. CYLCH GORCHWYL AR GYFER PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig), yn gofyn am gadarnhau cylch gorchwyl pwyllgorau/is-bwyllgorau'r Cyngor.

**5. CHRIS RUANE AS – CYFARFOD I DRAFOD WI-FI AR STRYD FAWR Y RHYL**

Derbyn a phenderfynu ar wahoddiad (copi'n amgaeëdig) gan Chris Ruane AS i'r Cyngor benodi cynrychiolydd i fynychu cyfarfod i drafod y posibilrwydd o gyflwyno Wi-fi ar Stryd Fawr y Rhyl.

**6. EITEMAU GAN AELODAU**

Y Cynghorydd J. Ball – Gofyn am gefnogaeth y Cyngor i roi gwahoddiad i Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer cyflwyniad i'w roddi ar weithrediad Credyd Cynhwysol yn ardal y Rhyl.

Y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James – Gofyn am gefnogaeth y Cyngor i anfon llythyr at Lywodraeth Cymru yn gwrthwynebu gostyngiad yn / diddymu grant ariannu Swyddog Cyswllt Ysgolion yr Heddlu.

**7. EITEM ER GWYBODAETH: DIGWYDDIAD COFFA'R RHYFEL BYD CYNTAF, GWLAD BELG**

Derbyn a chydnabod gwybodaeth (copi'n amgaeëdig) gan Mr Antoni Vitti mewn perthynas â sut y bydd y Rhyl yn cynrychioli Cymru mewn digwyddiadau coffa'r Rhyfel Byd Cyntaf yng Ngwlad Belg.

## 8. EITEMAU GWYBODAETH GAN YR AELODAU

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain sydd wedi eu cytuno gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

## 9. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

## 10. EITEMAU CYFRINACHOL GAN YR AELODAU

Y Cynghorydd A. S. Johnson – Gofyn i'r Cyngor ystyried gwneud cyflwyniadau i Gyngor Sir Ddinbych i ystyried y posibilrwydd i'r awdurdod hwnnw gaffael adeilad penodol ar Stryd Fawr y Rhyl.

## 11. LLOCHESI BWS

Penderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig) ar ôl i Gyngor Sir Ddinbych gysylltu mewn perthynas ag ailwampio a throsglwyddo arfaethedig nifer o lochesi bws yn y Rhyl.

## 12. CYTUNDEB TELEDU CYLCH CYFYNG

Ymhellach i gofnod rhif 22 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 21ain Mehefin 2017, cymeradwyo'n ffurfiol lofnodi cytundeb ar gyfer darparu gwasanaethau Teledu Cylch Cyfyng yn 2018/19 gan y Maer / Clerc y Dref.

## 13. GWEITHRED YN ILDIO'R SWYDDFEYDD DINESIG

Ymhellach i drafodaeth flaenorol, cyemradwyo'n ffurfiol bod y Maer yn llofnodi'r Weithred i Ildio'r Swyddfeydd Dinesig.

## 14. EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Mewn perthynas â Chofnod Rhif 79 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, ystyried unrhyw geisiadau gan Heddlu Gogledd Cymru (manylion i'w dosbarthu yn y cyfarfod os oes angen).

## 15. TERFYNU'R CYFARFOD

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.